Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# School House Daycare Ltd
Ysbyty Tywysoges Cymru
Heol Coety
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1RQ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/02/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw School House Day Care Limited sy'n cwrdd ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr.  Mae'r lleoliad ar agor am bum niwrnod yr wythnos, rhwng 6.30am a 7.00pm.  Mae'n perthyn i grŵp o saith o leoliadau yn Ne Cymru.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 50 o blant o'u geni hyd eu bod yn 12 oed.  Mae'n darparu addysg wedi ei ariannu i blant tair oed am ddwy awr y dydd ar gyfer plant sy'n gymwys.  Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant yn y lleoliad yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei ariannu.

Daw bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig ac nid yw unrhyw un o'r plant yn dod o gartrefi sy'n siarad Cymraeg.  Mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd.

Mae'r lleoliad yn cyflogi 14 aelod o staff, ac mae gan bedwar ohonynt gyfrifoldeb uniongyrchol am y ddarpariaeth i blant tair oed.  Ymgymerodd y rheolwr â'i swydd ym Mehefin 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yng Ngorffennaf 2017 a chan Estyn yn Chwefror 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus
- Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i blant ddysgu drwy chwarae a phrofiadau ymarferol, yn enwedig tu fewn i'r adeilad
- Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant, ac yn holi plant yn bwrpasol yn ystod tasgau ffocws
- Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu cyflawniadau plant yn gywir ac yn targedu'r camau nesaf yn eu dysgu yn dda
- Mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd yn sensitif
- Mae ymarferwyr yn creu cymuned gynhwysol, sy'n hyrwyddo ethos gofalgar drwy ei gweithgareddau bob dydd
- Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth
- Mae'r defnydd o'r amgylchedd awyr agored yn briodol i anghenion y plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r perchennog a'r rheolwr yn llwyddo i greu gwelliannau drwy arferion cadarnhaol a chefnogol
- Mae'r rheolwr wedi pennu targedau defnyddiol ar gyfer gwella trwy brosesau hunanarfarnu gwell
- Mae ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol effeithiol
- Mae partneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol
- Mae cynlluniau tymor hir effeithiol ar waith, sy'n cynnwys defnyddio safle'r ysbyty ac amwynderau cyfagos i wella profiadau dysgu'r plant
- Mae'r rheolwr yn defnyddio'r dyraniad cyllideb a'r adnoddau yn effeithiol, yn enwedig y tu mewn i'r adeilad

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau gwneud marciau a medrau ysgrifennu cynnar y plant ar draws yr holl feysydd dysgu

A2 Herio'r plant mwy abl i berfformio hyd eu gorau

A3 Gwella trefniadaeth yr amgylchedd dysgu dan do a phrofiadau'r plant yn yr awyr agored

A4 Ymgorffori'r prosesau hunanarfarnu yn effeithiol i dargedu'r holl feysydd i'w gwella yn gywir

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae profiadau dysgu yn targedu diddordebau ac anghenion y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd synhwyrol i blant gyfrannu'u syniadau at gynllunio yn ystod amseroedd cylch a thrafodaethau grŵp. O ganlyniad, maent yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant ddatblygu'u dysgu annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae wedi'u cynllunio. Mae hyn yn cynnwys eu hannog i gydweddu rhannau o'r corff, fel trwynau a chlustiau, â gwahanol synhwyrau ac i flasu ffrwythau gwahanol er mwyn cymharu eu hansoddau amrywiol.

Ar y cyfan, mae cynlluniau'r lleoliad i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n ddyfal â'i gilydd i gyflwyno gweithgareddau pwrpasol, yn enwedig dan do. Maent yn sicrhau bod tasgau rhifedd yn cael lle amlwg yn yr holl feysydd dysgu. Fodd bynnag, er bod lle dynodedig ar gyfer gwneud marciau i'w gael tu allan, nid yw ymarferwyr yn herio'r plant i arbrofi gyda'u medrau ysgrifennu cynnar mewn meysydd dysgu eraill yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ysgogol i blant ddatblygu'u medrau creadigol a mynegiannol yn dda drwy chwarae rôl yn y cornel cartref a'r ardal gwisgo i fyny. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad corfforol yn briodol ac mae ymarferwyr yn hyrwyddo dringo a llithro ar offer anturus a reidio beiciau yn fywiog yn ddyddiol. Maent yn canolbwyntio ar fedrau ymchwiliol yn bwrpasol yn yr ardaloedd canfod ac adeiladu. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys defnyddio chwyddwydrau i archwilio rhisgl ar foncyff ac i adeiladu tyrau gyda gwahanol fathau o siapiau tri dimensiwn. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog plant i ddefnyddio'u dealltwriaeth a'u medrau presennol yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn cydnabod mai medrau Cymraeg ar lefel isel sydd gan y plant pan fyddant yn cychwyn. Eir i'r afael â hyn yn briodol gan ymarferwyr trwy fodelu geiriau

syml, rhifau, lliwiau ac ymadroddion yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol o'r iaith i'r plant yn gynnar. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Ymhlith y gweithgareddau hyn maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, yn paratoi ac yn coginio cawl ac yn pobi cacennau traddodiadol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol. Darperir cyfleoedd difyr gan y lleoliad i ddefnyddio ystod o offer, fel camerâu, gliniaduron, llechi electronig a theganau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn herio plant i ddatblygu'u medrau TGCh cynnar, eu rheolaeth fanwl ar offer technolegol a'r defnydd o feddalwedd addysgol yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae aelodau'r gwasanaethau brys, hylenyddion deintyddol a siopwyr yn addysgu plant ynglŷn â rolau pobl yn eu cymuned yn bwrpasol. Gwna ymarferwyr ddefnydd da o'r parc cyfagos, adeilad a thir yr ysbyty, swyddfa'r post a llwybrau natur i hyrwyddo dealltwriaeth plant o'r ardal leol yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn darparu cyfleoedd diddorol i blant ddysgu drwy chwarae a phrofiadau ymarferol. Mae ganddynt wybodaeth ddiweddar am ddatblygiad plant a defnyddiant egwyddorion y cyfnod sylfaen yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn arwain tasgau'n frwdfrydig ac yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Maent yn annog plant i symud yn annibynnol o amgylch yr ystafell fawr. Ar brydiau, fodd bynnag, nid ydynt y rheoli'r lefelau sŵn yn ddigon da ac mae'r plant iau yn tarfu ar ddysgu'r plant hŷn yn ystod tasgau ffocws.

Mae disgwyliadau uchel gan ymarferwyr ar gyfer y rhan fwyaf o blant. Maent yn ymyrryd yn ystyriol yn chwarae'r plant, ac yn holi plant yn ddeallus er mwyn datblygu'u medrau cyfathrebu, rhif a'u medrau meddwl. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio plant mwy abl yn ddigon da bob amser, yn enwedig pan fyddant yn datblygu'u medrau ysgrifennu cynnar.

Mae ymarferwyr yn trafod gweithgareddau yn dda gyda grwpiau a phlant unigol, ac yn gyffredinol mae'r cyflwyniadau i dasgau ffocws yn gryno ac ysgogol. Maent yn sicrhau bod plant yn deall pwrpas yr holl weithgareddau ffocws. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu'n llwyddiannus â thasgau gosod, sy'n eu helpu i ddysgu'n effeithiol.

Mae gweithdrefnau ar gyfer asesu cyflawniadau plant yn gywir a defnyddiol. Cofnodir asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson gan yr holl ymarferwyr. Maent yn trafod yn ofalus gyda phlant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ymhellach, fel dal siswrn yn gywir wrth dorri ar hyd llinell syth. Maent yn cydweddu'u harsylwadau dyddiol yn dda â deilliannau plant unigol, gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn cynllunio tasgau pwrpasol sy'n targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr pan fyddant yn casglu'u plant.  Mae'r lleoliad yn darparu adroddiadau llawn gwybodaeth iddynt, ynghyd ag enghreifftiau o'u gwaith wedi'u cyflwyno'n dda, pan fydd eu plentyn yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.  Defnyddir trafodaethau grŵp yn synhwyrol gan ymarferwyr er mwyn i blant ystyried teimladau ei gilydd.  Mae hyn yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd yn sensitif.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i blant drafod eu teimladau a diolch i'w gilydd.  Maent yn creu amgylchedd digynnwrf ac yn annog plant i eistedd gydag oedolion mewn grwpiau bach a gwrando ar ei gilydd mewn lleoliad cymdeithasol, fel amser byrbryd.  O ganlyniad, mae plant yn dysgu cysylltu'n dda â'i gilydd a chymryd eu tro yn gwrtais, gan gynnwys pan fyddant yn gweini diodydd i'w gilydd.  Caiff y plant gyfleoedd defnyddiol i ymgymryd â chyfrifoldebau a dysgu gwneud penderfyniadau, er enghraifft yn eu rôl fel 'Helpwr Heddiw'.

Ceir trefniadau effeithlon i gefnogi iechyd a lles plant, gan gynnwys systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  O ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn dda iddynt.  Mae ymarferwyr yn annog plant i ailgylchu papur, cardbord, nwyddau plastig a bwyd.  Mae hyn yn dechrau datblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn briodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau cadarnhaol yn dda i helpu plant i ddysgu sut i ymddwyn.  Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel, ac mae ymarferwyr yn cymryd gofal da o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cyngor gan asiantaethau allanol i wneud yn siŵr eu bod yn darparu cymorth effeithiol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Maent yn cofnodi mannau cychwyn plant yn gywir pan fyddant yn dod i mewn i'r lleoliad, gan ddefnyddio'r datganiadau o'r proffil cyfnod sylfaen a phrofion sgrinio priodol.  Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd.  Gosodant dargedau sy'n bodloni anghenion dysgu ychwanegol plant yn bwrpasol, yn enwedig eu hanghenion iaith a'u hanghenion emosiynol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Digonol**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar drwy ei weithgareddau dyddiol ac mae'n gymuned gynhwysol.  Rhoddir pwyslais cadarnhaol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth gan ymarferwyr.  Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn effeithiol drwy ddathlu llawer o wyliau o wahanol rannau o'r byd, fel Rosh Hashanah, Diwali a 'Blwyddyn y Ceiliog' Tsieineaidd.

Mae ymarferwyr yn adnabod pob un o'r plant yn dda ac yn targedu'u hanghenion yn effeithiol.  Gwnânt yn siŵr bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r ardaloedd dysgu sydd ag adnoddau da, yn enwedig dan do.  Maent yn deall ac yn ymateb i geisiadau plant am gymorth yn brydlon.  Caiff yr holl blant eu harwain yn gadarnhaol, yn ofalus ac yn sensitif gan ymarferwyr er mwyn eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus i fodloni anghenion y rhan fwyaf o'r plant a gofynion y cyfnod sylfaen. Mae'n defnyddio ystod eang o adnoddau ymarferol yn bwrpasol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu yn yr amgylchedd dan do. Mae ymarferwyr yn gadael i blant ddefnyddio adnoddau'n annibynnol, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at hyrwyddo'u synnwyr o gyfrifoldeb.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ceir gofod mawr yn yr ystafell ac mae ymarferwyr yn ei drefnu'n bwrpasol i greu amgylchedd dysgu ysgogol yn ddyddiol. Mae cynllun yr ystafell yn annog plant i symud o un ardal ddysgu i un arall yn rhydd, gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau cadarnhaol iddynt. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae ymarferwyr yn trefnu'r ystafell yn annog chwarae swnllyd ar adegau, ac mae hyn yn tynnu sylw plant hŷn yn ystod tasgau ffocws.

Mae ardal awyr agored fawr gan y lleoliad, ond nid yw ymarferwyr yn ei defnyddio'n ddigon da. Cynigir ychydig o gyfleoedd i dyfu a phlannu, ynghyd ag offer dringo ac offer anturus mewn rhan o'r ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn trefnu ardaloedd dysgu effeithiol yn yr awyr agored i gyfoethogi profiadau plant a datblygu'u medrau yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd pwrpasol o'r amgylchedd lleol i wella profiadau dysgu'r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n bwrpasol ar sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion y plant ac yn eu helpu i wneud cynnydd da. Mae'r rheolwr yn arwain tîm o ymarferwyr ymroddedig yn llwyddiannus, ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'r ymarferwyr a'r plant. Mae'n llwyddo i'w hannog i wella mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol.

Mae'r rheolwr yn darparu cyfeiriad cadarnhaol ar gyfer arferion dyddiol a hirdymor y lleoliad. Mae hyn yn hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau'n llwyddiannus. Mae gweledigaeth y rheolwr, ynghyd â chymorth ei dirprwy, yn sicrhau bod yr addysgu a'r gofal o'r plant o ansawdd da i gyd.

Mae'r rheolwr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys datblygu'i dealltwriaeth a'i defnydd ei hun o broffil y cyfnod sylfaen, a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad lleferydd ac iaith plant er mwyn cefnogi anghenion y plant. Hefyd, mae'n canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel sicrhau bod darpariaeth llythrennedd, rhifedd a TGCh o ansawdd da er mwyn gwella medrau'r plant.

Mae'r rheolwr yn rhannu gwybodaeth am arferion y lleoliad yn effeithiol gyda'r perchennog a'r rheolwr ardal. Maent yn cwrdd yn rheolaidd i gynllunio cylch blynyddol o weithgareddau, fel diwrnodau gwyliau a dathliadau'r byd. Mae'r rheolwr ac uwch ymarferwyr yn sicrhau bod gan bob un o'r staff ddealltwriaeth drylwyr o'u rolau a'u bod yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd fel tîm yn ddyddiol. Mae cyfarfodydd goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd yn sicrhau bod y lleoliad yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn tasgau rhifedd a thasgau creadigol dyddiol, ac mewn cymorth un i un i blant unigol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ceir diwylliant o wella yn y lleoliad. Mae'r rheolwr ac ymarferwyr yn myfyrio ar eu harfer, yn ystyried barnau ei gilydd a barnau rhieni a gofalwyr yn synhwyrol, er mwyn nodi meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae rheolwr newydd y lleoliad wedi nodi'n llwyddiannus yr angen i wella'r ddarpariaeth yn yr ardal awyr agored.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn awyddus i ymateb i gyngor a chymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol. Arweiniodd hyn at welliannau yn ddiweddar, fel mewn asesu cynnydd plant a nodi'u camau nesaf mewn dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau hunanarfarnu ffurfiol yn y lleoliad.

Mae cynllun gwella'r lleoliad yn nodi meysydd addas i'w datblygu. Yn eu plith mae datblygu medrau ymarferwyr i wella cymorth lleferydd ac iaith y lleoliad a monitro ansawdd yr addysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn deillio'n uniongyrchol bob tro o brosesau hunanarfarnu'r lleoliad. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu presennol yn cynnwys digon o fanylion i helpu arweinwyr y lleoliad i flaenoriaethu materion i'w gwella yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i wella darpariaeth ac i godi safonau a lles plant yn bwrpasol. Mae partneriaeth gadarnhaol y lleoliad â'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol yn helpu gwella'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac yn arwain at gymorth effeithiol ar gyfer plant unigol. Ceir trefniadau effeithlon ar gyfer trosglwyddo asesiadau a gwybodaeth bersonol i ysgolion er mwyn cynorthwyo plant wrth iddynt symud ymlaen i gyfnod nesaf eu haddysg.

Mae partneriaeth y lleoliad gyda Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd yn helpu sicrhau bod dogfennaeth ac arferion rheoleiddio wedi'u diweddaru a'u bod yn bodloni anghenion y lleoliad.

Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol gan y lleoliad i gefnogi a chyfoethogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys cyfranogi mewn gweithgareddau ac ymweld â busnesau lleol gerllaw'r ysbyty. Er enghraifft, mae plant yn elwa o gyfleoedd i ymweld â'r ambiwlansys a gweld y tu fewn i'r cerbydau.

Mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu gydag ystod o grwpiau partneriaeth eraill, sy'n gwneud cyfraniad cryf at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cynorthwyo'r lleoliad gyda chodi a chario, hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu a chyrsiau hylendid bwyd.

Mae ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Caiff rieni wybodaeth reolaidd gan y lleoliad am bob agwedd ar waith y lleoliad drwy gylchlythyrau diddorol, ac mae'n eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol i awgrymiadau rhieni, fel defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am waith y lleoliad gyda rhieni a gofalwyr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r perchennog a'r rheolwr yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i wella gwaith y lleoliad. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad nifer ddigonol o ymarferwyr â chymwysterau a phrofiad addas i fodloni anghenion y plant.

Mae systemau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn helpu nodi anghenion hyfforddi ymarferwyr yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu a rhannu'u gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae'r perchennog a'r rheolwr yn sicrhau bod plant yn cael defnyddio digon o adnoddau diddorol yn rheolaidd i gefnogi eu dysgu'n effeithiol dan do, sy'n cynnwys offer TGCh defnyddiol. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae darparu adnoddau addas yn yr ardal awyr agored.

Mae cyllideb y lleoliad, a ddyrennir gan y perchennog ac a reolir gan y rheolwr, yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn defnyddio'i gyllid yn effeithlon i wella darpariaeth a safonau plant. Mae hyn yn arbennig o amlwg y tu fewn i'r adeilad.

At ei gilydd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd ei gynllunio cwricwlwm effeithiol, ei addysgu, ei ofal o'r plant ac arweinyddiaeth bwrpasol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |